# Cynnig Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol ac Ychwanegol

Ebrill 2025



colegsirgâr colegceredigion

# RHAGARWEINIAD

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno cwmpas y ddarpariaeth ddysgu gyffredinol ac ychwanegol sydd ar gael yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, i awdurdodau lleol, ysgolion a darpar ddysgwyr, rhieni a gofalwyr. Mae wedi'i chynllunio i gefnogi dealltwriaeth well a rhanedig o ddarpariaeth addysg bellach a hyfforddiant rhwng colegau ac asiantaethau lleol.

## Ysbrydoli Dysgwyr, Cyflawni Potensial ac Ennill Rhagoriaeth Drwy Ddiwylliant o Gynwysoldeb

**Mae gan Goleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion dîm ymroddedig o athrawon arbenigol a staff Cymorth Dysgu i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau ac anghenion meddygol.**

Mae'r coleg yn ymrwymedig i ddarparu ystod lawn o addysg bellach a hyfforddiant hygyrch o fewn y gymuned mae'n ei gwasanaethu. Drwy ei ddarpariaeth ddysgu gyffredinol ac ychwanegol, ei nod yw sicrhau bod yr holl ddysgwyr sydd wedi cofrestru yn gallu gwneud cynnydd person-ganolog o fewn y cyrsiau a gynigir. Mae pob un o'n campysau'n cynnig cyrsiau wedi'u cynllunio i baratoi pobl ifanc ar gyfer astudio pellach a/neu gyflogaeth. I gael manylion llawn y rhaglenni a gynigir, cyfeiriwch at ein gwefan – www.colegsirgar.ac.uk / www.colegceredigion.ac.uk.

Mae ein campysau wedi cael eu cynllunio neu'u haddasu i fod mor hygyrch â phosibl ar gyfer ein holl ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny â chyflyrau corfforol a synhwyraidd.

Mae staff Cymorth Dysgu ar gael ar bob campws i gefnogi dysgwyr gyda'u hastudiaethau. Rydyn ni'n croesawu ac yn dathlu niwroamrywiaeth ac, fel coleg, rydyn ni'n croesawu dysgwyr â ffyrdd amrywiol o ddysgu i'n hamgylchedd dysgu cynhwysol. Mae'r tîm Cymorth Dysgu yn gweithio'n agos gyda'r holl staff i sicrhau bod addysgu a dysgu yn hygyrch i ddysgwyr. Mae'r holl gymorth yn anelu at feithrin annibyniaeth dysgwyr yn amgylchedd y coleg a thu hwnt.

Mae gennym **ddull person-ganolog** - mae dysgu, dyheadau a dymuniadau'r person ifanc wrth wraidd eu taith addysgol yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys yn y broses o gynllunio cymorth, gwneud penderfyniadau ac adolygu ymyriadau cymorth.  Mae gan bob campws brif ystafell Cymorth Dysgu ddynodedig lle gall dysgwyr weithio mewn amgylchedd tawel a chefnogol.

Mae ein dull cynhwysol o addysgu a dysgu yn golygu ein bod yn gallu bodloni anghenion y mwyafrif o ddysgwyr ac rydyn ni'n cymryd pob cam rhesymol (gan roi sylw priodol i'r Ddeddf Cydraddoldeb, 2010) i sicrhau ein bod yn darparu addysgu o ansawdd uchel a chymorth priodol, yn seiliedig ar asesiad person-ganolog o anghenion pob dysgwr.



# DERBYNIADAU A DILYNIANT

Wrth ystyried ceisiadau dysgwyr gan bobl ifanc (16 i 25) ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gyntaf mae angen i ni ddeall diben addysg bellach a hyfforddiant. Gall hyn gynnwys:

- Paratoi'r dysgwr ar gyfer gwaith.
- Galluogi'r dysgwr i gael mynediad i addysg bellach neu uwch.
- Paratoi'r dysgwr ar gyfer bywyd annibynnol fel oedolyn i'r graddau sy'n rhesymol

Defnyddir y meini prawf canlynol i benderfynu a yw coleg yn llwybr addysgol addas:

- A yw'r coleg yn gallu darparu'r cwricwlwm, cymorth, cyfarpar ac amgylchedd fydd yn galluogi'r person ifanc (PI) i gyrraedd ei botensial?
- A oes angen mynediad ar y PI i therapïau a gwasanaethau y bernir eu bod yn angenrheidiol iddo er mwyn gwneud cynnydd rhesymol tuag at ei gyrchnodau addysg a hyfforddiant?
- A yw'r coleg yn gallu bodloni anghenion y PI heb effeithio'n negyddol ar ei les neu les dysgwyr eraill neu staff?

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018: Y Cod**
Nid yw'r Cod yn rhoi'r hawl i unigolyn ifanc gael addysg neu hyfforddiant parhaus rhwng 16 a 25 oed. Mae gan bob unigolyn ifanc yr hawl i ddwy flynedd o addysg bellach a hyfforddiant, fel y nodir yn y Cod (17.65) a'r Ddeddf Addysg, 1996. Mae'r Cod yn nodi 'mewn rhai achosion efallai y bydd gan unigolyn ifanc anghenion rhesymol i ymgymryd ag addysg bellach neu hyfforddiant am fwy na dwy flynedd' (17.69). Felly, nid oes hawl i addysg neu hyfforddiant parhaus hyd at 25 oed oni bai bod diben diffiniedig i'r addysg neu'r hyfforddiant, fel y nodir uchod.

Yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, mae ein dull cynhwysol tuag at addysgu a dysgu yn golygu ein bod yn gallu bodloni anghenion y mwyafrif o ddysgwyr ac rydyn ni'n cymryd pob cam rhesymol (gan roi sylw priodol i'r Ddeddf Cydraddoldeb, 2010) i sicrhau ein bod yn darparu addysgu o ansawdd uchel a chymorth priodol, yn seiliedig ar asesiad person-ganolog o anghenion pob dysgwr.

# EGWYDDORION

Mae cwrs coleg, i lawer o'n dysgwyr, yn cynnig cyfle addysg a hyfforddiant pwysig cyn cyflogaeth a/neu fywyd oedolyn. Credwn ni ei fod yn hanfodol i annog pobl ifanc i ddod mor annibynnol â phosibl, yn eu dysgu a hefyd yn eu sgiliau ar gyfer bywyd. Mae ein dull, er yn gefnogol, wedi'i gynllunio i annog annibyniaeth ac i ddarparu sgiliau a strategaethau i ddysgwyr y gallant eu defnyddio yn y coleg, mewn cyflogaeth ac mewn bywyd fel oedolyn.

# DARPARIAETH DDYSGU

Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion o bob oed. Mae pob campws yn amgylchedd cyhoeddus ac agored sy'n gweddu orau i anghenion pobl ifanc sy'n gallu hunanreoli eu hymddygiad a'u lles o fewn y math hwn o leoliad.

Er ein bod yn anelu at gefnogi anghenion addysg a hyfforddiant ein holl ddysgwyr, nid ydym yn gallu cynnig therapïau neu wasanaethau tra arbenigol megis:

- Therapi iaith a lleferydd
- Therapi ymddygiad
- Ffisiotherapi
- Therapi galwedigaethol
- Therapïau siarad arbenigol
- Hydrotherapi
- Therapi adlam

Fodd bynnag, rydyn ni'n hapus i weithio gyda darparwyr eraill, megis gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, lle mae hyn yn hyrwyddo lles a/neu gynnydd ar gyfer dysgwr.

# DARPARIAETH DDYSGU GYFFREDINOL (ULP)

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o wasanaethau cymorth i'r **holl** ddysgwyr. Mae hyn yn debygol o fodloni anghenion mwyafrif helaeth ein dysgwyr ac mae'n cynnwys y canlynol:

| Math o Wasanaeth/Cymorth | Tebygol o fodloni anghenion... | Gwybodaeth Bellach |
|---|---|---|
| Addysgu a dysgu cynhwysol, sy'n cynnwys gwahaniaethu yn y dosbarth | Mwyafrif y dysgwyr | Mae ein staff wedi cael hyfforddiant mewn ymarfer cynhwysol ac mae ganddynt fynediad i gyngor ac arweiniad ychwanegol oddi wrth ein tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN). |
| Tiwtorialau grŵp yn y dosbarth | Mwyafrif y dysgwyr | Mae ein sesiynau tiwtorial yn cynnwys ystod o destunau i annog datblygiad personol a pharatoad ar gyfer bywyd oedolyn. |
| Tiwtorialau personol | Mwyafrif y dysgwyr | Caiff dysgwyr y cyfle i gael tiwtorial un i un gyda'u tiwtor personol. Mae trafodaethau'n cynnwys gosod ac adolygu targedau dysgu, presenoldeb, dilyniant academaidd neu yrfaol, ceisiadau UCAS, a chyfeiriadau cymorth (academaidd a/neu fugeiliol). |
| Technoleg Gynorthwyol | Mwyafrif y dysgwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n cael mynediad i ddarpariaeth Cymorth Dysgu | Mae gan yr holl gyfrifiaduron o fewn y coleg y meddalwedd canlynol:<br>• Offer dysgu Google (gan gynnwys immersive reader a screen masking)<br>• TextHelp Read & Write (yn darparu testun i leferydd ac offer cymorth cynllunio)<br>• Offer chwyddo sylfaenol<br>• Meddalwedd mapio meddwl. |
| Cael benthyg cyfarpar dros dro, megis chromebooks | Rhai dysgwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n cael mynediad i ddarpariaeth Cymorth Dysgu | Gall dysgwyr ofyn i staff am gael benthyg cyfarpar, gan ddibynnu ar argaeledd a meini prawf penodol y coleg. |
| Holiadur Cymorth Dysgu | Dysgwyr llawn amser a dysgwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) | Gall dysgwyr gwblhau'r Holiadur Cymorth Dysgu yn ystod proses Gynefino'r Coleg. Mae'r holiadur yn galluogi dysgwyr i adfyfyrio ynghylch eu proffil dysgu unigol i nodi gofynion cymorth academaidd posibl yn yr ystafell ddosbarth. |

| Math o Wasanaeth/Cymorth | Tebygol o fodloni anghenion... | Gwybodaeth Bellach |
|---|---|---|
| Asesu ar gyfer trefniadau mynediad i arholiadau (EAA) a'u darparu | Unrhyw ddysgwr sydd â thystiolaeth sy'n ei wneud yn gymwys ar gyfer trefniadau arholiad o dan ddiffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) o anabledd ac yn unol â'r bwrdd arholi. Gall dysgwyr sydd dan anfantais ddiweddar neu dros dro, er enghraifft oherwydd damwain neu gyflwr meddygol hefyd fod yn gymwys ar gyfer EAA | Gall addasiadau rhesymol gynnwys:<br>• Amser ychwanegol<br>• Darllenydd a/neu ysgrifennydd<br>• Egwyliau gorffwys<br>• Defnydd o gyfrifiadur i gwblhau arholiad<br>• Papurau wedi'u helaethu neu'u haddasu. |
| Cymorth pontio | Pob dysgwr | Yr holl ddysgwyr a all fod yn cael symud i'r coleg yn broses anodd, e.e. dysgwyr â phryder neu broblemau eraill y gall fod angen cymorth arnynt gyda'r pontio.<br>Gellir gwneud trefniadau i gynnig ymweliadau ar adegau tawel, ymweliadau â champysau, cyfeiriadu, cyfweliadau gyda chymorth ac ymgysylltiad â gweithgareddau pontio'r haf. |
| Tîm lles, cynghorwyr a swyddogion cyllid. | Ar gael i'r holl ddysgwyr sy'n profi heriau gyda:<br>• Lles personol<br>• Iechyd meddwl<br>• Cyfyngiadau ariannol<br>• Problemau personol eraill | Staff neu broses hunangyfeirio. |

| Math o Wasanaeth/Cymorth | Tebygol o fodloni anghenion... | Gwybodaeth Bellach |
|---|---|---|
| Mynediad i sesiynau llythrennedd a/neu rifedd | Mwyafrif y dysgwyr | Gall dysgwyr gael mynediad i sesiynau llythrennedd a rhifedd (WEST neu Sgiliau) fel rhan o'u rhaglen goleg. |
| Cymorth galw heibio o fewn y Canolfannau Adnoddau Dysgu (LRC) | Mwyafrif y dysgwyr | Gall ein Llyfrgellwyr LRC ddarparu cymorth gyda:<br>• Sgiliau ymchwil<br>• Dod o hyd i wybodaeth<br>• Cyfeirnodi<br>• Cyngor ar gyfer sgiliau astudio<br>• Adnoddau lles<br>• Prynu eitemau traul e.e. pennau. |
| Mynediad i ardal astudio dawel | Mwyafrif y dysgwyr | Ar gael yn y Canolfannau Adnoddau Dysgu. |
| Gweithgareddau cyfoethogi | Pob dysgwr | Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:<br>• Rhaglen diwtorial<br>• Undeb y Myfyrwyr<br>• Byddwch actif<br>• Gweithgareddau chwaraeon<br>• Clybiau, grwpiau a chymdeithasau<br>• Cymunedau ar-lein traws-gampws<br>• Llysgenhadon Myfyrwyr a chynrychiolwyr dosbarth |
| Sgiliau cyflogadwyedd a Chyngor Gyrfaol | Pob dysgwr | Gall dysgwyr gael mynediad i gymorth cyflogadwyedd a datblygu gyrfa, cyngor ac arweiniad i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd oddi wrth y Tîm Cyflogadwyedd. |
| Mynediad i gymorth Digidol / TGCh | Mwyafrif y dysgwyr | Gall dysgwyr gael mynediad i gyngor a chymorth technegol gan diwtoriaid a'r Ddesg Gymorth TG. |



colegsirgâr colegceredigion

# DARPARIAETH DDYSGU YCHWANEGOL (ALP)

Gall fod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar ddysgwyr yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni gan y ddarpariaeth ddysgu gyffredinol sydd ar gael. Gellir cynnig y canlynol i'r rheiny sydd â thystiolaeth ategol gymwys o angen dysgu ychwanegol.

| Math o Wasanaeth/Cymorth | Tebygol o fodloni anghenion... | Ar gael yn... | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Campws Aberystwyth | Campws Aberteifi | Campws Rhydaman | Campws Y Gelli Aur | Campws y Graig | Campws Ffynnon Job | Campws Pibwrlwyd | Darpariaeth DSW (WBL) |
| Mynediad i staff cymorth addysgu Lefel 5 neu 7 SpLD arbenigol a chymwysedig | Ar gyfer dysgwyr sydd ag Angen Dysgu Ychwanegol ac sydd eisiau cymorth gydag astudiaethau academaidd a sgiliau astudio. Mae'r athro arbenigol yn cyflwyno cymorth drwy ddull person-ganolog, yn llunio proffiliau un dudalen, cynlluniau ymddygiad cadarnhaol (lle bo'n berthnasol) ac yn cynnig hyfforddiant gyda meddalwedd arbenigol, i feithrin annibyniaeth bersonol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymorth pwrpasol ac wedi'i dargedu yn y dosbarth | Darparu cymorth i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) er mwyn datblygu annibyniaeth a sgiliau academaidd.<br>Neilltuir a chytunir ar hyn ar sail person-ganolog. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mynediad i staff Cymorth Dysgu sydd wedi'u hyfforddi mewn Awtistiaeth | Gall dysgwyr gael mynediad i gymorth wedi'i dargedu ar sail person-ganolog. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Math o Wasanaeth/Cymorth | Tebygol o fodloni anghenion... | Ar gael yn... | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Campws Aberystwyth | Campws Aberteifi | Campws Rhydaman | Campws Y Gelli Aur | Campws y Graig | Campws Ffynnon Job | Campws Pibwrlwyd | Darpariaeth DSW (WBL) |
| Arwyddwr BSL/ gweithiwr cymorth cyfathrebu (Lefel 1 a 2) | Ar gyfer dysgwyr sy'n hollol fyddar ac sy'n dibynnu ar BSL er mwyn cyfathrebu. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dehonglydd BSL (Lefel 3 neu uwch) | Ar gyfer dysgwyr sy'n hollol fyddar ac sy'n dibynnu ar Ddehongli BSL er mwyn cyfathrebu. | | | | | | | | |
| Cymorth cyfathrebu (gan ddibynnu ar anghenion person-ganolog unigol) | Ar gyfer dysgwyr ag anghenion cyfathrebu cymhleth. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymorth gofal personol | Ar gyfer dysgwyr sydd â chyflyrau corfforol neu feddygol sydd angen cymorth gyda gofal personol, cymorth symudedd, bwydo, gwisgo, mynd i'r toiled a hylendid cyffredinol. | | | ✓ | | ✓ | | | |
| Gwell Cymorth Pontio | Ar gyfer dysgwyr a fyddai'n elwa o ymgysylltu â staff y coleg a'r amgylchedd cyn dechrau eu cwrs. Gellir gwneud trefniadau i gynnig ymweliadau campws ar adegau tawel, gyda chyfeiriadu, cwrdd â staff allweddol, cyfweliadau gyda chymorth ac ymgysylltiad â gweithgareddau pontio'r haf. Gall dysgwyr gael mynediad i fideos seiliedig ar gampws er mwyn cefnogi cyfeiriadu (drwy wefan y coleg). | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Math o Wasanaeth/Cymorth | Tebygol o fodloni anghenion... | Ar gael yn... | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Campws Aberystwyth | Campws Aberteifi | Campws Rhydaman | Campws Y Gelli Aur | Campws y Graig | Campws Ffynnon Job | Campws Pibwrlwyd | Darpariaeth DSW (WBL) |
| Mynediad i ofod tawelu'r synhwyrau dynodedig | Ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu lefelau uchel o bryder ac mae arnynt angen mynediad rheolaidd i ofod tawelu'r synhwyrau. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymorth i'r dosbarth a/neu gludiant ac oddi yno (gan ddibynnu ar anghenion person-ganolog unigol) | Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gorfforol yn gallu trosglwyddo eu hunain o'u cludiant i'r ystafell ddosbarth heb gymorth. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Tywysydd gweld | Er mwyn i ddysgwyr â nam ar y golwg lywio o gwmpas y campws. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Benthyg neu fynediad i gyfarpar arbenigol a/neu dechnoleg gynorthwyol | Ar gyfer dysgwyr sydd angen cyfarpar arbenigol neu dechnoleg gynorthwyol er mwyn gwneud cynnydd rhesymol ar eu cwrs. Darperir cyfarpar ar sail person-ganolog, ar y cyd â chyngor gan arbenigwyr allanol. Mae'r cyfarpar sydd ar gael yn cynnwys:<br>• Cymhorthion radio a geir ar sail dysgwyr unigol, seiliedig ar ganllawiau tystiolaeth feddygol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# DARPARIAETH ARWAHANOL

Mae gennym amrywiaeth o gyrsiau ar gyfer dysgwyr sy'n gadael yr ysgol (ôl-16 neu ôl-19) sy'n dymuno symud ymlaen i fwy o annibyniaeth, byw â chymorth, ac amrywiaeth o gyd-destunau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Dull person-ganolog tuag at gyflwyno sy'n sail i'r cwricwlwm. Mae'r dull hwn o ddysgu yn cydnabod bod addysgu a dysgu ar ei fwyaf effeithiol pan fyddant yn seiliedig ar angen, diddordeb a dyheadau'r dysgwyr eu hunain.

Mae pob un o'r rhaglenni'n seiliedig ar graidd sy'n cynnwys pedwar piler dysgu, gyda thargedau unigol ac asesiadau RARPA:

- Iechyd a Lles
- Cyflogadwyedd
- Byw'n Annibynnol
- Cynhwysiant Cymunedol

### COLEG CEREDIGION - CAMPWS ABERYSTWYTH

| Cwrs | Dyddiau/wythnos |
|---|---|
| **Llwybr 2 (Llawn Amser)**<br>Ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu difrifol/cymedrol; er mwyn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol. | 3 |
| **Llwybr 3 (Llawn Amser)**<br>Ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol/ysgafn ac anawsterau a/neu anableddau cymdeithasol ac ymddygiadol, er mwyn datblygu twf a lles personol. | 3 |

**COLEG SIR GÂR - CAMPWS RHYDAMAN**

| Cwrs | Dyddiau/wythnos |
|---|---|
| **Llwybr 1 (Llawn Amser)**<br>**D**arpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu dwys a lluosog; er mwyn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol. | 3 |
| **Llwybr 2 (Llawn Amser)**<br>Ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu difrifol/cymedrol; er mwyn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol. | 3 |
| **Llwybr 3 (Llawn Amser)**<br>Ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol/ysgafn ac anawsterau a/neu anableddau cymdeithasol ac ymddygiadol; er mwyn datblygu twf personol a lles. | 3 |
| **Llwybr 4 (Llawn Amser)**<br>Interniaethau a chamu i gyflogaeth. | 3 |

Cyfeiriwch at yr adran gwybodaeth am gyrsiau ar wefan y coleg i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyrsiau a rhagor o fanylion am y **broses ymgeisio.**

# DARPARIAETH CLUDIANT

Ar gyfer pobl ifanc sy'n gweld teithio ar gludiant arferol yn heriol ac sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwneud cais am gludiant ychwanegol, e.e. darpariaeth tacsi. Cyfeiriwch at **Bolisi Cludiant** y coleg.






colegsirgâr colegceredigion

# DARPARIAETH DYSGU ARBENIGOL

Lle mae anghenion addysg a hyfforddiant dysgwr yn gofyn am gyfleusterau dysgu, therapiwtig a hyfforddiant dwysedd uchel, arbenigol lle darperir addysgu a chymorth gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig. **Yn yr achosion hyn, ni fydd y coleg yn gallu bodloni anghenion addysg neu hyfforddiant y dysgwr.**

<table>
<tr><th>Math o Wasanaeth / Cymorth</th><th>Tebygol o fodloni anghenion...</th><th>Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion</th></tr>
<tr><td>Staff addysgu a chymorth dwysedd uchel, wedi'u hyfforddi'n arbenigol; cyfarpar arbenigol a/neu gymorth therapiwtig fel yr argymhellwyd.</td><td>Dysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu cymhleth, prin, sydd angen lefel uchel o addysgu a chymorth arbenigol yn ogystal ag ymyriadau therapiwtig rheolaidd ac athrawon cymorth (Nam ar y Golwg / Nam ar y Clyw). I'w ymgorffori yn y cwricwlwm o ddydd i ddydd.</td><td rowspan="3">Staff sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i gyflwyno:<br>• Ymyriadau therapiwtig a meddygol arbenigol, pwrpasol, dwysedd uchel<br><br>Darpariaeth:<br>• Darpariaeth breswyl<br>• Cwricwlwm pwrpasol<br><br>Amgylchedd ac Adnoddau:<br>• Amgylcheddau caeedig<br>• Switiau synhwyraidd ac ymlacio<br>• Pwll hydrotherapi<br>• Swît ffisiotherapi<br>• Swît therapi galwedigaethol<br><br>Ymyriadau:<br>• Ataliaeth gorfforol<br>• Cymorth ymddygiad pwrpasol<br>• Cymorth a rheolaeth anadlol<br>• Rheoli poen neu osgo<br>• Hyfforddiant teithio o'r cartref i'r coleg<br><br>Therapïau:<br>• Therapi iaith a lleferydd<br>• Therapi galwedigaethol<br>• Ffisiotherapi<br>• Therapi cerddoriaeth/drama/dyfrol neu therapi adlam pwrpasol ac yn y blaen.</td></tr>
<tr><td>Staff addysgu a chymorth dwysedd uchel, sydd wedi'u hyfforddi'n arbenigol mewn ymddygiad; darpariaeth ymddygiad bwrpasol; a/neu ymyriadau therapiwtig fel yr argymhellwyd.</td><td>Ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion ymddygiadol cymhleth, prin, gydag ymddygiadau sy'n peri pryder sy'n risg sylweddol i'w hunain ac eraill y gallai fod angen strategaethau ataliaeth corfforol arnynt.</td></tr>
<tr><td>Rhywfaint o gyfarpar a/neu hyfforddiant pwrpasol a thra arbenigol fel yr argymhellwyd.</td><td>Ar gyfer dysgwyr sydd angen addysg neu hyfforddiant pellach er mwyn defnyddio adnoddau, cyfarpar neu dechnoleg gynorthwyol arbenigol e.e. technoleg syllu â'r llygaid, cymorth Braille, pwll hydrotherapi.</td></tr>
</table>

# MANYLION CYSWLLT

colegsirgâr colegceredigion

01554 748179
derbyniadau@colegsirgar.ac.uk
derbyniadau@ceredigion.ac.uk
www.csgcc.ac.uk

**Julia Green**
julia.green@colegsirgar.ac.uk
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Profiad Dysgwyr a
Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
Dynodedig y Coleg

